Dyro inni weld o'r newydd

Caneuon Ffydd: Rhif 184

Dyro inni weld o'r newydd
    mai ti, Arglwydd, yw ein rhan;
aed dy bresenoldeb hyfryd
    gyda'th weision i bob man:
tyrd i lawr, Arglwydd mawr,
rho dy fendith yma nawr.

Ymddisgleiria yn y canol,
    gwêl dy bobol yma 'nghyd
yn hiraethu, addfwyn Iesu,
    am gael gweld dy ŵyneb-pryd;
golau cry' oddi fry
chwalo bob rhyw gwmwl du.

Deued yr awelon hyfryd,
    effaith Ysbryd gras, i lawr;
llifed atom afon bywyd
    dardd o dan yr orsedd fawr:
Arglwydd da, trugarha,
y sychedig rai dyfrha.

JOHN THOMAS, 1730–1804?

MYFYRDOD

Emyn i'w ganu o flaen pregeth yw hwn gan John Thomas. Daeth John Thomas o dan ddylanwad pregethu Howel Harris a Griffith Jones, Llanddowror, pan oedd yn ifanc iawn, ac ar ôl gwrando ar Griffith Jones pan oedd yn bymtheg oed fe erfyniodd arno i'w gymryd yn was ato i weithio, er mwyn iddo gael bod o dan ei weinidogaeth. Cymhellodd Harris ef i ddod i Drefeca i'r ysgol a gadwai yno, a bu yno am flwyddyn. Teithiai cyn amled ag y medrai i Langeitho tra oedd yng Ngholeg yr Annibynwyr yn y Fenni, er mwyn cael cludo tân yr Efengyl yn ôl oddi yno gan Daniel Rowland.

Gwyddai, felly, sut beth oedd pregethu grymus yn anterth y Diwygiad Methodistaidd, ac fe wyddai ym mha nerth yr oedd yr Efengyl yn cael ei phregethu gan y diwygwyr: nerth yr Ysbryd Glân. Mae ei erfyniad ar i bresenoldeb hyfryd Duw fynd 'gyda'th weision i bob man' yn ein hatgoffa o'r darlun hwnnw o'r apostolion yn Llyfr yr Actau, darlun a phatrwm a welwyd yn cael eu hailadrodd yn ei gyfnod ef wrth i'r Diwygiad Methodistaidd dreiddio drwy Gymru a'r 'credinwyr yn cael eu chwanegu fwyfwy at yr Arglwydd, luoedd o wŷr a gwragedd' (Actau 5:14). Fe sonnir am yr apostolion yn gwneud 'arwyddion a rhyfeddodau lawer ymhlith y bobl' (Actau 5:12), arwyddion a rhyfeddodau a oedd yn dangos yn amlwg bod presenoldeb Duw gyda nhw. Fe fyddai rhai yn cael eu hiachâu dim ond wrth i gysgod Pedr ddisgyn arnyn nhw, oherwydd bod gogoniant Duw yn cael ei ddangos ym mywydau y dynion hyn. Roedd presenoldeb Duw yn beth i'w deimlo a'i weld gan bobl yn y cyfnodau hyn o ddiwygiad fel yn hanes sefydlu'r Eglwys Fore, a'i bresenoldeb yn canlyn ei weision, fel yr âi cysgod Pedr gydag ef i bob man a dod i arwyddo presenoldeb Duw i'r cleifion a gâi eu cyffwrdd a'u hiachâu ganddo. Dynion cyffredin ddigon oedd yr apostolion cynnar, ond fe'u gwnaed yn rhai anghyffredin trwy i Dduw fendithio eu hufudd-dod a'u ffyddlondeb nhw iddo ef ei hun.

Am yr awelon hynny sy'n dwyn bendith y gofynna John Thomas amdanynt wedyn, gan mai'r un Ysbryd Glân ag sy'n eneinio'r gweision i rannu'r Efengyl sy'n gallu dwyn y rhai sy'n gwrando ar Air Duw i argyhoeddiad o'i wirionedd a chaniatáu iddyn nhw weld 'wyneb-pryd' Iesu Grist. Ond fe newidiwyd 'Awel grû oddi frû Chwytho bant y Cwmmwl du' yn ail bennill y gwreiddiol yn 'golau cry' oddi fry chwalo bob rhyw gwmwl du'. Trwy'r emyn, felly, fe geir erfyn am olau, awel a dŵr, y cyfan yn arwyddo gwaith yr Ysbryd Glân yn bendithio ac yn trugarhau wrth y rhai sy'n disgwyl wrtho.

GWEDDI

O Arglwydd, fe hiraethwn eto am gael gweld dy wynepryd. Am gael gweld dy bresenoldeb yn mynd gyda'th weision i bob man, yn gwneud pobl gyffredin eto, trwy eu hufudd-dod i ti, yn rhai anghyffredin. Tyrd i lawr, Arglwydd mawr, rho dy fendith yma'n awr. Er mwyn Iesu. Amen.